CYPE(6)-16-22 – Papur i'w nodi 9

Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
Deisebau@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDeisebau
0300 200 6565
–
Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
Petitions@senedd.wales
senedd.wales/SeneddPetitions
0300 200 6565

Y Pwyllgor Deisebau

Petitions Committee

Julie Morgan AS
Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol
Llywodraeth Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1SN

4 Gorffennaf 2022

Annwyl Ddirprwy Weinidog

Deiseb P-06-1161 Casglu a chyhoeddi data fel mater o drefn o ran faint o fabanod/plant sy'n dychwelyd at ofal eu rhieni sydd wedi bod mewn gofal ar ddiwedd Lleoliad Rhiant a Phlentyn

Diolch am ymddangos gerbron y Pwyllgor Deisebau ar 13 Mehefin 2022. Bydd eich tystiolaeth yn cael ei thrafod ynghyd â'r ystod o dystiolaeth arall a glywyd gennym fel rhan o'r gwaith hwn.

Fel rhan o'n gwaith craffu ar y mater hwn, rydym wedi nodi'r ystod o ymrwymiadau perthnasol yn y rhaglen lywodraethu, gan gynnwys yr ymrwymiadau i:

- atal teuluoedd rhag chwalu drwy ariannu gwasanaethau eirioli i rieni y mae eu plant mewn perygl o ddod yn rhan o'r system ofal;
- darparu cymorth arbenigol ychwanegol i blant ag anghenion cymhleth a allai fod ar gyrion y system ofal;
- archwilio diwygiadau radical i'r gwasanaethau presennol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal; a
- chryfhau cyrff cyhoeddus yn eu rôl fel 'rhiant corfforaethol'.

Rydym hefyd yn nodi'r adolygiadau diweddar o wasanaethau ar gyfer plant â phrofiad o fod mewn gofal yn Lloegr a'r Alban ac rydym wedi dilyn eu canfyddiadau a'u camau nesaf â diddordeb.

I sicrhau bod gennym ddealltwriaeth lawnach o'r diwygiadau radical sy'n cael eu gwneud mewn perthynas â gofal cymdeithasol i blant, gwnaethoch gytuno y byddai eich swyddogion yn anfon rhagor o fanylion atom am y camau ymarferol sy'n gysylltiedig â dwyn pob un o'r ymrwymiadau hyn yn ei flaen, yn ogystal â'r camau gweithredu sy'n cael eu cymryd fel rhan o'r broses ddiwygio. Mae gennym ddiddordeb arbennig yn y 'diwygio radical' y soniwyd amdano, a byddem yn croesawu'n benodol unrhyw fanylion am y camau nesaf a'r amserlen mewn perthynas â'r mater hwn.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymateb drwy e-bostio'r tîm clercio yn deisebau@senedd.cymru erbyn 18 Gorffennaf 2022 i'n galluogi i fwrw ymlaen â'r gwaith hwn.

Yn gywir

Jack Sargeant AS

Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.